



Yr hyn y dylai gyrwyr cludo ei wneud wrth symud nwyddau mewn lleoliadau gyrru ymlaen, gyrru i ffwrdd (RORO): UE i'r DU

(ac eithrio Gogledd Iwerddon)

CLUDWYR A GYRWYR MASNACHOL

Brexit heb fargen canllaw piced Symud nwyddau trwy leoliadau RORO: UE i'r DU a'r DU i'r UE

Welsh/Cymraeg

Gwiriwch y newidiadau i ddogfennau gyrrwr, cerbyd, cargo a thollau, yn www.gov.uk/brexit-haulage
www.gov.uk/brexit-haulage-drivers
www.gov.uk/brexit-haulage-vehicles


© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan www.gov.uk/brexit-hauliers

Cod cynnyrch: Brexit_FlowChart0919



Os nad ydych yn siŵr pa ddogfennaeth y dylid ei chario, cyfeiriwch at eich rheolwr trafniadaeth.

1 Gofynion dogfennau gyrrwr a gweithredwyr yr UE

1.1 Nid oes unrhyw ofynion ychwanegol ynghylch dogfennau cerbydau a gyrrwr ar gyfer gyrrwr cludo o'r UE a'r UE sy'n dod i mewn i'r DU. Fodd bynnag, mae gofynion ychwanegol ynghylch tollau a ffiniau (camau 2-8).

1.2 Gofynion dogfen gyrrwr a gweithredwyr y DU

Mae angen i yrwr y DU gario'r un ddogfennaeth gerbyd a gyrrwr ag o'r blaen. Yn ychwanegol:

- Rhaid i basbortau'r DU fod yn ddilys am o leiaf 6 mis
- os ydych chi'n gyrru yn neu drwy Ffrainc, yr Eidal neu Gyprus, rhaid cael trwydded yr rwyngwladol (IDP) gan Swyddfa Bost y DU. Mewn gwledydd eraill nid oes angen IDP cyn belled â bod gan y gyrrwr drwydded cerdyn-llun
- os oes gan y gyrrwr drwydded bapur ar yr hen ffurf, gwiriwch GOV.UK am y gofynion
- os ydych chi'n tynnu ôl-gerbyd, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i gofrestru ar wahân a bod platiau cofrestru'n cael eu harddangos
- mae angen Cerdyn Gwyrdd ar yrwr pob cerbyd o'r DU sy'n teithio i'r UE sydd yn dangos tystiolaeth o yswiriant dilys trwy gydol y daith. Mae angen Cardiau Gwyrdd ar wahân ar gyfer cerbyd tynnu ac ôl-gerbyd

- Rhaid arddangos sticeri GB y tu ôl i bob cerbyd ac ôl-gerbyd
- ar gyfer rhai teithiau, bydd angen caniatâd Cynhadledd Gweinidogion Trafniadaeth Ewrop (ECMT) sy'n galw am Dystysgrifau Cydymffurfiaeth, Addasrwydd i'r Ffordd Fawr, Cofnodlyfr a phlatiau adlewyrchol

2 Paratowch ar gyfer gofynion tollau mewnforio y DU

Rhaid i yrwr dderbyn cadarnhad gan y masnachwr allforio bod ffurfioldebau allforio'r UE wedi'u cyflawni, a chael copiau o'r holl ddogfennau angenrheidiol fel y gallant basio trwy dollau yr UE ar y ffin. Mae'n debygol mai datganiad allforio neu drwydded fydd hyn.

Cyn cyrraedd ffin yr UE-DU rhaid i'r gyrrwr sicrhau bod ganddo nodyn CMR a bod ganddo 1 o'r dilynol ar gyfer pob un o'r llwythi mae'n eu cario:

- cyfeirnod meistri/symud MRN (a elwir hefyd yn rif mynediad) ar gyfer datganiad mewnforio y DU
 - mae angen i gludwr neu yrwr ddarparu manylion rhif cofrestru'r cerbyd/ôl-gerbyd i fewnforiwr y DU os nad yw hyn wedi'i ddarparu eisoes

Man gwirio i mewn Porthladd yr UE



- os ydych chi'n danfon nwyddau tollau cartref i warws tollau cartref yn y DU gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dal copi o'r Ddogfen Weinyddol electronig (eAD), dogfen fasnachol sy'n cynnwys y cod cyfeirio gweinyddol (ARC) neu ddatganiad tollau wedi'i gyflwyno ymlaen llaw gan gynnwys manylion gwarant symud tollau cartref addas erbyn i chi adael porthladd y DU; neu

- Rhif EORI y DU os yw nwyddau'n defnyddio'r weithdrefn nwyddau safonol trosiannol symlach (TSP); neu
- Dogfen i Gyd-fynd â Thramwy (TAD), neu gyfeirnod lleol LRN er mwyn casglu'r TAD o swyddfa ymadael. Bydd angen EORI DU o dan TSP neu MRN o ddatganiad o weithdrefnau mewnforio'r DU hefyd ar gyfer y symudiadau hyn ar ddiwedd y daith tramwy; neu
- Trwydded ATA; neu
- Trwydded TIR

3 Gofynion Ychwanegol yn dibynnu ar natur y llwythi

Os oes angen gwiriadau ychwanegol ar y nwyddau, rhoddir cyfarwyddiadau i'r gyrrwr fynd i'r man mynediad priodol i'w harchwilio (er enghraifft, mewn man archwilio ffiniau (BIP)).

4 Casglu Nwyddau a Dogfennau am y nwyddau

Yna dylai'r gyrrwr gasglu nwyddau a dogfennaeth yn unol â chyfarwyddyd allforiwr yr UE.

Ar ôl cyrraedd porthladd y DU



5 Paratoi ar gyfer gofynion allforio tollau'r UE

Cwblhau ffurfioldebau ym mhorthladd ymadael yr UE. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno unrhyw ddogfennau trwydded i'w stampio

Mae angen i yrwr sicrhau eu bod yn gyfarwydd â phrosesau ym mhorthladd ymadael yr UE a bod ganddynt dystiolaeth sy'n angenrheidiol i'w diwallu.

6 Gyrrwr yn gwirio i mewn

Gall y gyrrwr nawr gofrestru ar gyfer mynd ar ffwrdd.

7 Yn nhollau'r DU

Byddwch yn barod i gyflwyno tystiolaeth bod y meini prawf yng nghan 2 wedi'u diwallu i Lu'r Ffiniau os gofynnir am hynny


Nid oes angen stopio wrth gyrraedd i gynnal prosesau tollau. Dim ond ar ôl cael cudd-wyboodaeth ar sail risgiau tollau, smyglo neu ddiogelwch y bydd Lu'r Ffiniau yn atal tryciau. Bydd swyddog Lu'r Ffiniau yn cyfarwyddo'r gyrrwr i stopio yn yr achosion hyn.

Cynhyrchion sy'n destun gwiriadau glanweithiol a ffitolanweithiol sy'n dod o wledydd yr UE

Ni fydd y rhan fwyaf o gynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion o'r UE yn cael eu hystyried yn risg uchel, felly, gallant ddod i mewn i'r DU yn rhydd, heb ofynion ychwanegol

Gwiriadau glanweithiol a ffitolanweithiol yn dod o wledydd y tu allan i'r UE

Ar Ôl Clirio Tollau'r DU



Bydd rhaid i rai cynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion sy'n tarddu o wledydd y tu allan i'r UE sy'n symud trwy'r UE cyn dod i mewn i'r DU ddod i mewn i'r DU trwy fannau mynediad penodol.

Rhaid i'r masnachwr, y cludwr a'r gyrrwr sicrhau y bydd man mynediad y DU yn gallu gwirio'r nwyddau sy'n cael eu cludo.

Yn dibynnu ar y nwyddau, gellir gwirio hyn yn:

- Mannau-Archwilio-Ffiniau'r DU (BIP)
- Man Mynediad Dynodedig y DU (DPE)
- Man Cyrraedd Cyntaf (PoFA) ar gyfer planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n tarddu o wlad y tu allan i'r UE.

8 Ar ôl gadael Porthladd y DU

Os yw'r nwyddau ynghlwm wrth MRN ar gyfer datganiad mewnforio yn y DU rhaid i'r gyrrwr gyfathrebu eu bod wedi cyrraedd eu cwmni cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny, fel y gallant hysbysu'r mewnforiwr a all wedyn gwblhau gofynion eu datganiad.

Os yw nwyddau'n defnyddio gweithdrefn tramwy neu Drwydded TIR ac nad ydynt yn symud ymlaen i draddodai awdurdodedig, neu diriogaeth dollau arall, rhaid mynd â'r nwyddau i swyddfa gyrchfan.

Os yw nwyddau'n teithio o dan Drwydded ATA dylid mynd â nhw gyda'r drwydded i'w stampio yn unol â phrosesau lleol.



Yr hyn y dylai gyrrwyr cludo ei wneud wrth symud nwyddau mewn lleoliadau gyrru ymlaen, gyrru i ffwrdd (RORO): y DU i'r UE

(ac eithrio Gogledd Iwerddon)






Cyn teithio o safle (cyn gadael y DU)

Man gwirio i mewn porthladd y DU

Ymadael â'r DU ac ar ôl ymadael â'r DU

Ar ôl cyrraedd man gwirio i mewn l borthladd yr UE

Clirio tollau ar ôl yr UE



1.1 Gofynion dogfennau gyrrwyr a gweithredwyr yr UE

Nid oes unrhyw ofynion ychwanegol ynghylch dogfennau cerbydau a gyrrwyr ar gyfer gyrrwyr cludo o'r UE sy'n dod i mewn i'r DU. Fodd bynnag, mae gofynion tollau a ffiniau ychwanegol (camau 2-8).

1.2 Gofynion dogfennau ar gyfer gyrrwyr a gweithredwyr y DU

Mae angen i yrwr gario'r un ddogfennaeth cerbyd a gyrrwr ag o'r blaen. Yn ychwanegol:

- Rhaid i basortau'r DU fod yn ddilys am o leiaf 6 mis
- os ydych chi'n gyrru yn neu drwy Ffrainc, yr Eidal neu Gyprus, rhaid cael trwydded yrur ynglwladol (IDP) gan Swyddfa Bost y DU. Mewn gwledydd eraill nid oes angen IDP cyn belled â bod gan y gyrrwr drwydded cerdyn-llun
- os oes gan y gyrrwr drwydded bapur ar yr henffurf, gwiriwch GOV.UK am y gofynion
- os ydych chi'n tynnu ôl-gerbyd, gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i gofrestru ar wahân a bod platiâu cofrestru'n cael eu harddangos
- mae angen Cerdyn Gwyrdd ar yrwr pob cerbyd yn y DU sy'n teithio i'r UE sydd yn dangos tystiolaeth o yswiriant dilys trwy gydol y daith. Mae angen Cardiau Gwyrdd ar wahân ar gyfer cerbyd tynnu ac ôl-gerbyd
- Rhaid arddangos sticeri GBy tu ôl i bob cerbyd ac ôl-gerbyd
- ar gyfer rhai teithiau, bydd angen caniatâd Cynhadledd Gweinidogion Trafnidiaeth Ewrop (ECMT) sy'n galw am Dystysgrifau

2 Ffurfioldebau tollau

Rhaid i yrwr dderbyn cadarnhad bod y masnachwr sy'n mewnfario wedi diwallu ffurfioldebau mewnfario'r UE, a chael copïau o'r holl gyfeirnodau a dogfennaeth angenrheidiol sydd eu hangen i basio trwy dollau'r UE ar y ffin.

Rhaid i'r gyrrwr dderbyn cadarnhad gan y masnachwr allforio bod ffurfioldebau allforio yn y DU wedi'u cwblhau, a rhaid iddo dderbyn CMR. Fodd bynnag, nid oes angen stopio wrth gyrraedd ffin y DU i gynnal prosesau tollau'r DU. Efallai y bydd Llu'r Ffiniau yn atal rhai triciau ar gyfer rheolaethau a arweiniir gan gudd-wybodaeth. Bydd swyddog Llu'r Ffiniau yn cyfarwyddo'r gyrrwr i stopio yn yr achosion hyn.

Os casglwyd nwyddau o warws tollau bydd hyn yn cynnwys eAD, dogfennaeth fasnachol yn datgan yr ARC yn glir, ffurflen bapur W8 neu gopi o'r datganiad tollau. Os yw'r masnachwr yn dweud y dylid cyflwyno'r nwyddau at ddibenion allforio, gwnewch yn siŵr bod y nwyddau ar gael i Lu Ffiniau'r DU mewn swyddfa dollau.

Os yw nwyddau'n symud o dan y Confensiwn Tramwy Cyffredin (CTC) rhaid i'r gyrrwr naill ai:

- derbyn y Ddogfen i Gyd-fynd â Thramwy (TAD) sydd wedi'i ryddhau i'r gweithdrefnau cludo, neu

Cydymffurfiaeth, Tystysgrif Addasrwydd i'r Ffordd Fawr, Cofnodlyfr a phlatiau adlewyrchol

- cael Rhif Cyfeirio Lleol (LRN) neu TAD nad yw wedi'i ryddhau i'r weithdrefn tramwy ac yna cyflwyno'r nwyddau i swyddfa ymadael i roi'r LRN neu'r TAD i Lu Ffiniau'r DU. Byddant yn darparu TAD i'r gyrrwr os na threfnwyd bod un ar gael eisoes

Os yw nwyddau'n symud o dan Drwydded ATA rhaid i'r gyrrwr:

- cael dogfen Trwydded ATA
- Mynd â'r nwyddau a'r drwydded i swyddfa ymadael a'u cyflwyno i Lu Ffiniau'r DU

Os yw nwyddau'n symud o dan y Confensiwn Transport Internationaux Routiers (TIR), rhaid i'r gyrrwr:

- cael y ddogfen Trwydded TIR
- Mynd â'r nwyddau a'r drwydded i swyddfa ymadael a'u cyflwyno i Lu Ffiniau'r DU

Rhaid i'r cerbyd sy'n symud y nwyddau hefyd ddal tystysgrif gymeradwyo cerbyd ffordd ar gyfer cludo Nwyddau o dan Sêl Tollau.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod trefniadau ar waith i ddatgan y nwyddau i system tramwy'r UE ar ffin yr UE.

Os yw nwyddau'n symud o dan broses cyn-glirio Ffrainc o dan system Douanes Smart Border, bydd angen i rifau MRN Ffrengig gael eu darparu i yrwr gan eu swyddfa.

3 Gwiriadau ychwanegol

Mae'r cludwr yn cynllunio llwybr a fydd yn defnyddio man mynediad priodol os oes angen gwirio'r nwyddau (er enghraifft, mewn BIP).

Mae angen i yrwr sicrhau bod unrhyw ddogfennaeth sy'n ofynnol yn cael ei darparu gan yr allforiwr.

Anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid

Wrth gludo anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid o'r DU i'r UE, dylai'r gyrrwr wirio y bydd y llwybr yn caniatáu i'r llwyth gael ei wirio yn y man archwilio cywir ar y ffin (BIP) yn y wlad gyntaf yn yr UE a gyrraedd. Hefyd bydd angen i'r masnachwr gadarnhau gyda'r asiant mewnfario yn yr UE bod yr asiant mewnfario yn yr UE wedi dweud wrth y BIP perthnasol am ddyfodiad y llwyth o leiaf 24 awr cyn y bwriedir cyrraedd.

Rhaid i'r gyrrwr gario copi ffisegol o bob tystysgrif iechyd allforio (EHC) ar gyfer eu llwyth. Gellir gwirio'r EHCs yn BIP yr UE.

Wrth gludo anifeiliaid byw yn yr UE, bydd angen dogfennaeth ychwanegol ar yrwr gan na fydd yr UE bellach yn derbyn fersiynau o'r dogfennau hyn a gyhoeddir yn y DU ar ôl Brexit.

Mae'r dogfennau sy'n ofynnol ar gael gan adran berthnasol y llywodraeth ac maent yn cynnwys:

- awdurdodiad cludwr
- tystysgrif cymhwysedd

- tystysgrif cymeradwyo cerbyd
- dyddlyfr taith (lle bo angen)

CITES

Gall rhywogaethau anifeiliaid neu blanhigion sydd mewn perygl neu dan warchodaeth o dan y Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau o Ffawna a Fflora mewn Perygl (CITES) symud trwy fannau mynediad dynodedig yn unig. Dylai masnachwyr sicrhau bod eu llwybr yn ymgorffori'r pwyntiau mynediad hyn os oes angen. Gellir dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y pwyntiau mynediad hyn ar GOV.UK.

4 Casglu nwyddau

Mae'r cludwr yn casglu nwyddau yn unol â chyfarwyddyd yr allforiwr ac yn darparu manylion rhif cofrestru'r cerbyd/ ôl-gerbyd os nad yw hyn wedi'i ddarparu eisoes. Yna mae'r gyrrwr yn mynd yn ei flaen yn ôl cyfarwyddyd y cludwr.

5 Mewngofnodi mewn porthladd

Ar gyfer nwyddau sy'n symud i Ffrainc yn unig: cyn gwirio i mewn, os oes gan y cludwr sawl MRN, dylid defnyddio gwefan ffin clyfar Ffrainc i gyfuno'r rhain yn un MRN sy'n barod i'w sganio wrth wirio i mewn ym mhorthladd y DU neu'r derfynell Eurotunnel.

Mae'r gyrrwr bellach yn gwirio i mewn i fyrddio.

6 Dilynwch gyfarwyddiadau

Dilynwch gyfarwyddiadau Llu'r Ffiniau wrth y fan ymadael â'r DU, os cechw gyfarwyddyd, neu dilynwch unrhyw gyfarwyddiadau eraill a dderbyniwch ar fwrdd y fferi yn ystod y daith.

7 Glanio ym mhorthladd yr UE

Os yw'n glanio yn Ffrainc dylai'r gyrrwr gyfeirio at sgriniau gwybodaeth i gael gwybod am lôn werdd neu oren. Mae gwyrdd yn golygu nad oes angen gwiriadau ac mae oren yn golygu bod angen gwiriadau. Mae'n hanfodol cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau hyn ac os na wneir hynny ystyrir ei fod yn dwyll.

Ar gyfer holl borthladdoedd eraill yr UE efallai y bydd yn ofynnol i'r gyrrwr gyflwyno'r nwyddau a datganiad mewnfario'r UE, cyflwyno TAD symudiad o dan CTC neu gael Trwydded ATA/TIR wedi'i stampio. Gwiriwch y gofynion ar gyfer y porthladd rydych chi'n mynd i mewn iddo.

Nawr gall nwyddau adael porthladd cyrraedd yr UE.

8 Ar ôl gadael porthladd yr UE

Os yw nwyddau yn dal i gael eu cludo ac yn defnyddio gweithdrefn dramwy neu Drwydded TIR ac nad ydynt yn symud ymlaen i draddodai awdurdodedig, neu diriogaeth dollau arall, rhaid mynd â'r nwyddau i swyddfa gyrchfan. Efallai na fydd y swyddfa gyrchfan yn yr un aelod-wladwriaeth o'r UE â'r man lle mae'r nwyddau'n cyrraedd yr UE gyntaf.

Hysbyswch y mewnfariwr bod nwyddau wedi cyrraedd a darparu trwyddedau wedi'u stampio a chopïau o ddogfennau eraill i'r masnachwr.